Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Nodiadau Cymorth Ymgeisio

## Sefydliadau

Hydref 2019

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys


Eich rhestr wirio cyn ichi ddechrau ... 4

Adrannau'r cais ... 5

- 1. Croeso ... 5
- 2. Am eich Sefydliad ... 5
- 3. Gwybodaeth Gydraddoldeb eich Sefydliad ... 5
- 4. Manylion Cyswllt ... 6
- 5. Crynodeb o'r prosiect ... 7
- 6. Cynnig y prosiect ... 8
- 7. Targedau'r prosiect ... 12
- 8. Lleoliad y prosiect ... 13
- 9. Gwybodaeth gydraddoldeb eich prosiect ... 13
- 10. Datganiad ... 13
- 11. Atodiadau ... 14
- 12.Ar ôl cyflwyno eich cais ... 23

Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol ... 25

Cysylltwch â ni ... 26

## Eich rhestr wirio cyn ichi ddechrau

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ein canllawiau cyn dechrau llenwi eich ffurflen gais.

Gallwch chi weld ein canllawiau yma: https://arts.wales/cy/node/1051

### A oes gennych bopeth sydd ei angen arnoch i lenwi eich ffurflen gais?

- Manylion cyswllt a gwybodaeth eich sefydliad (oni bai eich bod wedi gwneud cais inni o'r blaen gan ddefnyddio ein system ar-lein)
- Gwybodaeth gydraddoldeb am eich sefydliad a'ch prosiect
- Eich cynnig prosiect ysgrifenedig, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen a phartneriaethau. Mae rhagor o wybodaeth am y cwestiynau yn adrannau 5 – Crynodeb o'r prosiect a 6 - Cynnig y prosiect
- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar y ein templed a islwythwyd sydd ar gael yn ein ffurflen gais)
- Eich dogfen lywodraethol, fel cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cymdeithasu
- Tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn enw'r sefydliad ynghyd â thystiolaeth y gall o leiaf ddau o bobl (llofnodwyr) awdurdodi trafodion. Gweler ein canllawiau am ragor o fanylion
- Gwybodaeth ategol arall – gweler adran yr atodiadau am ragor o wybodaeth

## Adrannau'r cais

### 1. Croeso

Bydd y tudalen yma'n rhoi gwybodaeth gyffredinol bwysig ichi am eich ffurflen gais.

Er enghraifft:

Arbedwch yn rheolaidd! ! Ni fydd y ffurflen yn ymateb i newidiadau ar ôl 60 munud felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich gwaith wrth lenwi'r ffurflen, a pheidiwch â'i gadael ar agor ar dab ar wahân yn eich porwr heb ei arbed yn gyntaf. Wrth arbed y cais, cewch chi e-bost gyda chopi o'r cais hyd yn hyn. Bydd unrhyw waith sydd heb ei arbed yn cael ei golli ac nid oes modd cael y wybodaeth yma'n ôl.

Mae eich ffurflen hefyd yn 'fyw' am tri mis yn unig. Ar ôl yr amser yna, caiff ei dileu. Os na fyddwch chi'n cyflwyno eich cais ond eich bod am gadw'r testun rydych chi wedi'i fewnbynnu, cadwch y testun mewn man arall, fel ar ffurf ddogfen Word neu Google Doc. Os yw eich cais wedi dod i ben, cysylltwch â ni i gael ffurflen newydd.

### 2. Am eich Sefydliad

Yn yr adran yma, rydym ni'n gofyn ichi nodi gwybodaeth sylfaenol am eich sefydliad.

Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad a gwefan y sefydliad ac, os yw'n berthnasol, rif Tŷ'r Cwmnïau, rhif y Comisiwn Elusennau a rhif TAW.

Rydym ni hefyd yn gofyn ichi ddisgrifio prif feysydd gweithgarwch eich sefydliad (beth rydych chi'n ei wneud, lle mae'n digwydd fel arfer a'r math o bobl sy'n elwa ar y gweithgarwch). A bydd angen ichi ddewis y math o sefydliad a'r sector sy'n cyfateb orau i'ch sefydliad a sut y cafodd ei sefydlu, a byddwn ni'n gofyn ichi am eich staff, i ddeall maint eich sefydliad.

### 3. Gwybodaeth Gydraddoldeb eich Sefydliad

Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau yn yr adran yma. Byddwn ni'n defnyddio'r data gan ein holl ymgeiswyr grant i'n helpu i sicrhau bod ein harian yn cyrraedd ystod eang o bobl a sefydliadau. Rhaid inni hefyd adrodd am yr holl bobl â nodweddion gwarchodedig y mae ein harian yn eu cyrraedd (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'n hadroddiad cydraddoldeb blynyddol) i gydymffurfio â'n dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011). Ni fydd eich

atebion ar y ffurflen yma'n effeithio ar unrhyw benderfyniad ar eich cais am grant ac fe'u defnyddir at ddibenion monitro yn unig.

## 4. Manylion Cyswllt

Byddwn ni'n gofyn ichi am eich dewis iaith gyswllt. Dewiswch o'r gwymplen ar y ffurflen.

Gofynnwn am dair set o fanylion cyswllt:

- eich Cadeirydd neu Berson Cyfatebol
- y Prif Gyswllt
- Os yr un person yw eich Cadeirydd a'ch Prif Gyswllt, rhowch fanylion cyswllt arall ar gyfer eich sefydliad

Ni all pob e-bost fod yr un peth, megis e-bost cyffredinol i'r cwmni.

Y Prif Gyswllt yw'r person y byddwn ni'n cysylltu â nhw ynghylch pob agwedd ar eich cais. Mae'n rhaid iddynt gael awdurdod eich sefydliad i lofnodi a chymeradwyo dogfennau ac ateb unrhyw ymholiadau a fydd gennym.

Byddwn ni'n cysylltu â'ch Prif Gyswllt a'ch Cadeirydd (neu'r person cyfatebol) am y penderfyniad am eich cais. Cofiwch hynny wrth ddewis iaith gysylltu.

Eich prif gyswllt fydd yn gyfrifol am anfon y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnom i fynd i'r afael ag unrhyw amodau penodol a osodir ar y grant, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau interim wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Byddan nhw hefyd yn gyfrifol am anfon adroddiad diweddu atom ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

### Consortia a phartneriaethau

Gallwn dderbyn ceisiadau gan sefydliad sy'n gweithio fel consortiwm, partneriaeth, rhwydwaith neu grŵp. Ar gyfer consortia neu grwpiau heb gyfansoddiad, mae'n rhaid i un sefydliad weithredu fel sefydliad arweiniol i'r cais. Dylid darparu manylion o'r sefydliad yma'n adran 2,3 a 4 o'r ffurflen. Os bydd y cais yn llwyddiannus, y sefydliad yma fydd yn gyfrifol am y grant, unrhyw adroddiadau interim a bydd yn gyfrifol am anfon adroddiad diweddu atom ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

### Ymwneud trydydd parti

Rhaid i bob cais fod yn gynnyrch eich sefydliad ac nid gwaith trydydd parti. Hyd yn oed os ydych chi wedi derbyn cymorth i ddatblygu eich cais, rhaid i'r manylion cyswllt y byddwch chi'n eu darparu fod ar gyfer unigolion yn eich sefydliad sydd â'r awdurdod priodol i wneud penderfyniadau ac arwyddo dogfennau (fel contractau a chytundebau ariannu) ar ran eich sefydliad.

Cofiwch na allwn ni dalu unrhyw gostau a godwyd arnoch am gyngor a help i lenwi eich cais.

## 5. Crynodeb o'r prosiect

### Cynllun ariannu

Nodwch a ydych chi'n gwneud cais am grant bach neu fawr.

Bydd hyn eisoes wedi'i drafod gyda'ch Swyddog Datblygu a bydd penderfyniad wedi'i wneud.

### Rhaglen waith

Dewiswch un rhaglen waith sy'n adlewyrchu orau ddyheadau eich prosiect. Rhaid ichi ddangos yn eich cais sut mae eich prosiect yn adlewyrchu un neu ragor o'n blaenoriaethau corfforaethol. Bydd hyn yn ganolog i'n proses asesu. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglenni yn ein canllawiau.

Os yw'ch prosiect ag agwedd ryngwladol, ewch i wefan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am fanylion am ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol: https://wai.org.uk/cy/wales-arts-international/ariannu

Pan oedd eich Swyddog Datblygu wedi rhoi ffurflen gais ichi, roedd yr e-bost hefyd yn cynnwys rhif rhyddhau ffurflen gais. Nodwch y rhif yma yn y blwch perthnasol gydag enw eich Swyddog Datblygu.

Yn yr adran yma, bydd angen nodi manylion sylfaenol y prosiect:

- teitl y prosiect
- dyddiad dechrau a dyddiad gorffen

**Pwysig:**
Y dyddiad pan fyddwch chi'n disgwyl mynd i gostau yw dyddiad dechrau eich prosiect. Er enghraifft, gallai dechrau'r prosiect fod pan fyddwch chi'n dechrau ar ymarferion neu weithgarwch marchnata.

Cofiwch hefyd na allwn ni ariannu gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, nac unrhyw gostau rydych chi wedi talu amdanynt neu wedi cytuno i'w talu (drwy arwyddo contract neu roi archeb er enghraifft), cyn inni wneud penderfyniad ar eich cais a'ch bod wedi derbyn ein cynnig o grant. Ar eich menter eich hun bydd hysbysebu neu hyrwyddo eich prosiect cyn yr adeg yma. **Ni allwn ni ariannu prosiectau lle mae tocynnau eisoes ar werth.**

Ar gyfer **Grantiau Bach**, cofiwch fod angen ichi adael o leiaf **chwe wythnos waith** rhwng y dyddiad y byddwch chi'n cyflwyno eich cais a'r dyddiad rydych chi am ddechrau eich prosiect.

Ar gyfer **Grantiau Mawr**, mae angen ichi adael o leiaf **naw wythnos waith** rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad rydych chi am ddechrau eich prosiect.

- cyfanswm cost y prosiect
- faint o arian rydych chi'n gofyn amdano?
- cost hygyrchedd personol

Gallwn ni helpu i dalu costau cymorth hygyrchedd personol ichi, neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â llunio eich prosiect yn greadigol, yn ystod y broses gyflawni. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 20 dan gostau hygyrchedd. Unwaith y bydd cyllideb eich prosiect wedi'i llenwi, copïwch y cyfanswm ar gyfer costau hygyrchedd i'r blwch yma.

## 6. Cynnig y prosiect

Dewiswch **un rhaglen waith** sy'n adlewyrchu dyheadau eich prosiect orau. Dylech chi hefyd ddangos yn eich cais sut mae'ch prosiect yn adlewyrchu un neu fwy o'n **blaenoriaethau corfforaethol**. Bydd hyn yn ganolog i'n proses asesu. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain i'w gweld yn ein canllawiau.

Mae 8 cwestiwn yn yr adran yma am eich cynnig prosiect.

### Rhowch grynodeb byr inni o'r prosiect rydych chi'n gwneud cais amdano

Mae uchafswm o 90 gair yn y blwch yma ac os byddwch chi'n llwyddiannus, efallai y byddwn ni'n defnyddio'r testun yma mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd y byddwn ni'n ei gynhyrchu.

### Dywedwch wrthym am eich prosiect yn fanwl, gan ganolbwyntio ar y syniad artistig/creadigol allweddol

Mae gan y blwch yma uchafswm o 500 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Dywedwch wrthym am eich prosiect, yr hyn rydych am ei wneud a'r hyn y bydd yn ei gyflawni. Pam rydych chi eisiau ei wneud a pham mae'n bwysig ichi?

- Ar gyfer pwy mae'r prosiect?
- Pa weithgarwch celfyddydol fydd yn digwydd?
- Ble fydd y gweithgarwch yn digwydd?
- Pryd fydd y gweithgarwch yn digwydd?
- Sut y byddwch chi'n sicrhau bod y prosiect o safon?

### Dywedwch wrthym pwy rydych chi am eu cyrraedd gyda'ch prosiect.

Mae gan y blwch yma uchafswm o 500 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Mae cyrhaeddiad yn bwysig inni. Rydym am i'n harian gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach bob cymuned ledled Cymru.

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n gwybod bod angen eich prosiect, pa dystiolaeth o'r galw sydd gennych chi. Â phwy rydych chi wedi siarad am eich prosiect a beth wnaethoch chi ei ddarganfod?

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn unigolion a chymunedau – a does dim byd yn gwneud Cymru'n fwy nodedig na'r Gymraeg. Disgwyliwn i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn eu dewis iaith, boed aelodau o gynulleidfa, yn gyfranogwyr neu'n artistiaid. Byddwn ni'n disgwyl ichi adlewyrchu hyn yn briodol yn eich prosiect.

Rydym am i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn fwy cynhwysol ac atyniadol. Felly, rydym am i'r sefydliadau rydym ni'n eu hariannu ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth a wnânt. Rydym ni hefyd am ymestyn cyrhaeddiad ein harian i ardaloedd o amddifadedd cydnabyddedig. Byddwn ni'n disgwyl ichi ddangos sut rydych chi wedi ystyried y materion hyn yn yr adran yma o'ch cynnig.

Os yw eich cynnig yn gynhyrchiad sy'n benodol i safle neu'n waith awyr agored, dywedwch wrthym sut mae'r lleoliad yn addas ac yn hygyrch.

Os yw eich prosiect yn cynnwys hyfforddiant, rhaglen fentora neu brofi syniad creadigol newydd, dylech chi ystyried pa fuddion hir dymor fydd gan eich prosiect.

### Sut bydd pobl yn cael clywed am eich prosiect?

Mae gan y blwch yma uchafswm o 500 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Yn yr adran uchod, rydych chi wedi nodi pwy rydych am ei gyrraedd. Rhowch wybod inni nawr sut y byddwch chi'n cyflawni hyn.

Mae angen inni wybod sut rydych chi'n mynd i gyrraedd y bobl a fydd yn cymryd rhan yn eich prosiect neu'n ei fynychu.

Bydd angen ichi ddangos eich bod yn deall eich grwpiau targed a'ch bod wedi cynnal dadansoddiad o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr posibl.

Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n gwneud eich prosiect yn fwy hygyrch i'ch cynulleidfa a/neu eich cyfranogwyr? Pa ystyriaethau ychwanegol rydych chi wedi'u cynnwys yn y prosiect? Sut rydych chi wedi ceisio cyngor ar gyfer gwneud y prosiect yn fwy hygyrch? Byddwn hefyd yn disgwyl ichi fod wedi ystyried y ffyrdd gorau o gyfathrebu â gwahanol grwpiau o bobl i hyrwyddo eich prosiect.

Pa farchnata byddwch chi'n ei wneud yn ystod y prosiect a beth fydd y cerrig milltir? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys costau marchnata yng nghyllideb eich prosiect a nodi pwy fydd yn gwneud y gwaith.

## Nodwch iaith/ieithoedd eich prosiect

Nodwch yr ieithoedd byddwch chi'n cynnal eich prosiect ynddyn nhw. Mae'n bosibl bydd eich prosiect mewn un iaith yn gyfan gwbl neu mewn dwy neu ragor. Rhowch amcangyfrif inni o bob iaith. Rhaid i'r cyfanswm fod yn 100%.

## Dywedwch wrthym am waith eich sefydliad a'i brofiad hyd yn hyn

Mae gan y blwch yma uchafswm o 350 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Dywedwch wrthym am eich gwaith artistig diweddar a pherthnasol (eich hanes o gyflawni) ac unrhyw lwyddiant.

Sut mae'r prosiect yma'n defnyddio neu'n ategu eich gwaith artistig blaenorol?

## Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n rheoli eich prosiect

Mae gan y blwch yma uchafswm o 500 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Rydym am ariannu prosiectau a reolir yn dda sy'n cyflawni yn ôl eu bwriad.

Yn yr adran yma, gallwch chi ddweud wrthym er enghraifft am:

- Eich amserlen ar gyfer prif gamau'r prosiect
- Safon, hanes a phriodoldeb yr artistiaid/pobl greadigol a'r sefydliadau celfyddydol eraill a fydd yn gweithio gyda chi
- Sut y bydd partneriaethau (os yw'n berthnasol) yn cael eu rheoli a sut y byddan nhw'n cyfrannu at gyflawni'r prosiect yn effeithiol

- Y meysydd risg allweddol sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect a sut y byddwch chi'n eu lleihau neu'n eu hosgoi

- Sut y byddwch chi'n casglu ac yn ymgorffori adborth drwy gydol oes y prosiect

- Sut y byddwch chi'n monitro ac yn gwerthuso llwyddiant eich prosiect

- A oes unrhyw strategaethau neu fentrau sy'n berthnasol i'ch prosiect? Gallai hyn fod ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol, er enghraifft Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'n dogfennau ein hunain fel ein cynllun corfforaethol, Er Budd Pawb

### Pwy fyddwch chi'n gweithio gyda nhw i gyflawni'r prosiect hwn?

Mae gan y blwch yma uchafswm o 250 gair.

Mae'r cynghorion isod yn arweiniad i beth i'w gynnwys yn eich ateb. Nid oes raid dilyn pob un, dim ond cynnig cymorth maen nhw.

Yn yr adran yma, dywedwch wrthym am enwau eich partneriaid prosiect, eu rôl yn y prosiect ac a yw eu cyfranogiad wedi'i gadarnhau.

## 7. Targedau'r prosiect

### Ffurf ar Gelfyddydau

Rydym ni'n casglu ac yn monitro gwybodaeth am faint o arian sy'n cael ei roi i bob ffurf ar gelfyddyd. Yn yr adran yma, a wnewch chi ddadansoddi eich gweithgarwch sy'n ymwneud â phob ffurf ar gelfyddyd?

Efallai mai 100% o un ffurf ar gelfyddyd yw eich prosiect neu, er enghraifft, gallai fod yn brosiect sy'n cynnwys rhywfaint o ddawns, drama a cherddoriaeth. Amcangyfrifwch y swm canrannol ar gyfer pob ffurf ar celfyddyd. Rhaid i'r cyfanswm fod yn 100%.

### Mathau o weithgarwch

Yn yr adran yma mae sawl gweithgarwch. Ticiwch y rhai sy'n berthnasol i'ch prosiect. Rhowch amcangyfrif o'r ganran am bob gweithgarwch – rhaid i'r cyfanswm fod yn 100%.

### Targedau arfaethedig

Yn yr adran yma gofynnwn ichi ddarparu gwybodaeth am eich targedau arfaethedig am nifer y perfformiadau/gweithdai/arddangosfeydd/digwyddiadau a niferoedd mynychu. Mae gwybodaeth am sut i lunio'r ffigyrau hyn yn y ffurflen gais.

## 8. Lleoliad y prosiect

Rhowch wybod inni ble byddwch chi'n cynnal y prosiect.

Mae cod post yn bwysig inni, gan ei fod yn fodd inni weld pa rannau o Gymru y mae ein harian yn eu cyrraedd.

### Ardal awdurdod lleol

Rhowch wybod pa gyfran o'ch gweithgarwch yn digwydd yn yr awdurdodau lleol sy'n cael eu henwi. O bosibl bydd eich prosiect yn digwydd mewn un neu dros bump. Rhowch amcangyfrif o'r ganran am bob ardal. Rhaid i'r cyfanswm fod yn 100%.

Os yw rhywfaint o'ch gwaith yn digwydd y tu allan i Gymru, nodwch hyn yn y dewis Y tu allan i Gymru neu Y tu allan i Brydain.

## 9. Gwybodaeth gydraddoldeb eich prosiect

Yn yr adran yma rydym ni am glywed a ydych chi'n targedu grwpiau penodol ar gyfer eich gweithgarwch.

Mae'n ofynnol inni gasglu a monitro gwybodaeth am bwy sy'n cael budd o'n harian. Mae hyn yn ein helpu i adrodd ar ein cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y celfyddydau ac mae'n ein helpu i dargedu arian lle mae ei

Mae rhagor o fanylion am y wybodaeth rydym am ei chasglu yn y ffurflen gais. Rydym ni'n gofyn a yw eich gweithgarwch ar gyfer: pobl o grŵp oedran penodol, pobl anabl, pobl o hil, crefydd neu gred benodol, dynion/menywod yn unig, pobl o gyfeiriadedd rhywiol penodol, pobl feichiog neu ar famolaeth neu pobl sy'n (neu sydd wedi) ailbennu eu rhywedd,

## 10. Datganiad

**Darllenwch y datganiad yn ofalus.**

Yn yr adran yma o'r ffurflen gais rydym ni'n gofyn ichi ddarllen rhywfaint o wybodaeth bwysig am ein cyfrifoldebau ynghylch Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a rhyddid gwybodaeth.

Mae'n bwysig eich bod chi'n deall sut bydd y wybodaeth rydych chi'n ei chyflwyno yn cael ei defnyddio a'i storio gennym ni. Ac mae angen ichi wybod beth i'w wneud os ydych chi'n credu bod unrhyw ran o'ch gwybodaeth yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

**Wedyn rydym ni'n gofyn ichi gadarnhau sawl cymal o'r datganiad**. Drwy dicio'r blwch rydych chi'n llofnodi'r ffurflen gais yn electronig ar ran eich sefydliad.

## 11. Atodiadau


Mae pedwar math o atodiad isod i'w uwchlwytho. Mae disgrifiad pellach yn y tudalennau sy'n dilyn.

- Eich Dogfen Lywodraethol
- Tystiolaeth Cyfrif Banc (mae gwybodaeth am beth sydd angen ei uwchlwytho yn ein canllawiau – mae dolen ar dudalen 1)
- Cyllideb eich Prosiect
- Enghraifft o'ch Gwaith

### Atodiad: Cyllideb y Prosiect

Rhaid ichi uwchlwytho cyllideb y prosiect i adran Atodiadau eich cais. **Rhaid i'r gyllideb fod ar y templed a ddarperir yn y ffurflen gais.**

Bydd eich prosiect yn cynnwys **gwariant** (costau'r prosiect) ac **incwm** o amrywiaeth o ffynonellau megis cais grant Cyngor Celfyddydau Cymru, eich adnoddau eich hun, arian arall fel ymddiriedolaethau a sefydliadau a chefnogaeth mewn nwyddau. Rhaid i'r gwariant a'r incwm fod yn **fantoledig**.



Mae'r darlun uchod yn dangos enghraifft o gyfanswm cost prosiect am gynnig. Mae'r bandiau incwm odanynt yn dod o wahanol ffynonellau ac sy'n dangos ei fod yn mantoli gyda'r gwariant. Gall y canrannau amrywio ond cofiwch na all cefnogaeth mewn nwyddau fod yn werth rhagor na 10% o holl gyllideb eich prosiect.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch cais, ni fyddwch chi'n gallu newid y gyllideb, felly gwnewch yn siŵr bod yr holl gostau ar gyfer y prosiect wedi'u cynnwys.

## Tudalennau cyllidebol

Dyma'r tudalennau y bydd angen ichi eu llenwi.

- Crynodeb – llenwch enw eich sefydliad a theitl y prosiect. Bydd gweddill y celloedd yn poblogi'n awtomatig wrth ichi lenwi adrannau gwariant, incwm a chostau hygyrchedd (os yw'n berthnasol).
- Gwariant – mae'r tudalen yma'n dweud wrthym faint o gostau y byddwch chi'n eu hysgwyddo i gyflawni eich prosiect.
- Incwm – mae'r tudalen yma'n dweud wrthym pa arian a gewch chi o ran eich prosiect.
- Costau hygyrchedd - costau cymorth hygyrchedd personol ichi, neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chynnal eich prosiect yn greadigol.

## Costau na allwn ni dalu amdanynt

Rydym ni eisoes wedi nodi yn ein canllawiau pa gostau na allwn ni eu hariannu.

I weld y rhestr yma o gostau anghymwys, dilynwch y ddolen ar dudalen 1 o'r canllawiau.

## Gwariant

Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi gweithio allan a cyrraedd y ffigyrau yno.

Mae 9 adran ar y tudalen yma, sef:

- Ffioedd artistiaid

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n talu eich hun ac aelodau o'ch tîm prosiect yn briodol. Gall ffioedd fod hyd at 100% o wariant eich prosiect. Dylid nodi'r rôl yn y prosiect ynghyd â'r gyfradd dâl, er enghraifft:

- Cyfarwyddwr, x diwrnod, £ x y dydd
- Actor, x diwrnod, £ x y dydd
- Arweinydd gweithdy, x diwrnod, £x y dydd

Gweler ein canllawiau am ragor o wybodaeth am ffioedd.

Rhaid i unrhyw staff prosiect (gan gynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol) sy'n cael eu talu mwy na £5,000 gael eu recriwtio drwy ddewis agored, oni bai fod rheswm artistig penodol a phwysig dros wneud fel arall. Os oes, rhaid esbonio hyn yn eich cais.

- Costau gweithgarwch artistig

Gall yr adran yma gynnwys costau megis teithio, cludiant, llety, per diems, costau deunyddiau a llogi mannau ymarfer ac offer.

Gallwch chi ddefnyddio costau hyn y filltir yn eich cyllideb:

- eich car eich hun am y 5,000 milltir gyntaf yn y flwyddyn dreth: 45c y filltir, am bob milltir dros 5,000 milltir: 25c y filltir
- eich beic modur eich hun: 24c y filltir
- eich beic eich hun: 20c y filltir

- Costau i gyrraedd eich cynulleidfa/cyfranogwyr

Costau ar gyfer marchnata a hyrwyddo eich gwaith, i'ch helpu i gyrraedd eich cynulleidfa/cyfranogwyr targedol, er enghraifft: cymorth gyda marchnata/y wasg/cysylltiadau cyhoeddus/y cyfryngau cymdeithasol neu costau cyfieithu/dylunio/argraffu/postio

- Costau am wneud eich gweithgarwch yn fwy hygyrch

Rydym ni'n disgwyl ichi wneud eich gweithgarwch yn hygyrch i bobl anabl. Yn yr adran yma gallwch chi gynnwys costau er enghraifft: perfformiadau wedi'u disgrifio'n

glywedol, dehongli perfformiadau ag Iaith Arwyddion Prydain, perfformiadau â chapsiynau/uwchdeitlau, arddangosfeydd cyffyrddol/trafod yn uniongyrchol, cynlluniau oriel mewn Braille a/neu deithiau sain, teithiau cyffwrdd neu arwyddion cyffyrddadwy/paneli dehongli.

- Monitro a gwerthuso

Yma dylid nodi'r costau sy'n gysylltiedig â monitro eich prosiect ym mhob cyfnod allweddol gydag unrhyw gostau gwerthuso.

Er enghraifft, costau arolygon neu holiaduron, tystebau, ffurflenni adborth neu ymatebion fideo. Yma dylid nodi'r ffioedd ar gyfer gwerthuswyr allanol hefyd.

- Prynu offer cyfalaf

Gellir defnyddio hyd at £2,000 o'ch grant fel cyfraniad at elfen gyfalaf sy'n benodol i brosiect, fel prynu darn o offer. Bydd angen ichi ddweud wrthym yng nghyllideb eich prosiect sut y byddwch chi'n defnyddio'r offer yma yn ystod ac ar ôl eich prosiect.

- Costau gweinyddu a gorbenion penodol i'ch prosiect

Gallwn ni ystyried costau gweinyddu a gorbenion penodol i brosiect, hyd at uchafswm o 20% o gyfanswm cost gymwys y prosiect. Byddwn ni ddim ond yn ystyried ariannu'r costau yma os na thelir amdanynt gan arian arall a'u bod yn amlwg yn ychwanegol. Mae'n rhaid dangos inni y bydd y costau'n cael eu hysgwyddo am gyfnod penodol yn unig a'u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'ch prosiect.

Gall costau gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch prosiect er enghraifft fod yn gostau postio a chostau yswiriant y prosiect. Os nad ydych chi'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru gallwch chi wneud cais am gyfraniad rhesymol i'ch costau parhaus i rentu swyddfa i'ch galluogi i gyflawni eich prosiect. Rhaid i'r ffigwr a ddefnyddiwch fod yn uniongyrchol gysylltiedig â faint o amser a dreulir ar y gweithgarwch rydych chi'n gofyn inni ei ariannu, felly esboniwch sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigwr.

Rhaid i unrhyw staff prosiect (gan gynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol) sy'n cael eu talu mwy na £5,000 gael eu recriwtio drwy ddewis agored, oni bai fod rheswm artistig penodol a phwysig dros wneud fel arall. Os oes, rhaid egluro hyn yn eich cais.

- Gwariant arall

**Costau'r wefan**
Byddwn ni'n ystyried rhoi hyd at £1,000 tuag at gostau datblygu a chynnal gwefan, os caiff ei defnyddio'n bennaf i farchnata a hyrwyddo eich prosiect.

**TAW**
Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, ni ddylai eich ffigyrau gwariant gynnwys TAW y gallwch chi ei hawlio'n ôl (sef TAW adferadwy). Dylid cynnwys unrhyw TAW rydych chi'n disgwyl mynd iddi ond na allwch hawlio'n ôl (TAW anadferadwy) fel categori gwariant ar wahân a dylech chi esbonio sut y gwnaethoch chi gyrraedd y ffigwr yma.

Os nad ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dylai eich costau gynnwys TAW.

- Cefnogaeth mewn nwyddau

Os oes gennych unrhyw gefnogaeth mewn nwyddau, rhowch hi ar y tudalen incwm.

Bydd y swm yn ymddangos yn awtomatig ar y tudalen gwariant, heb ichi wneud dim.

- Arian wrth gefn

Mae'n syniad da gosod o'r neilltu ychydig o'ch cyllideb i dalu am gostau annisgwyl. Gallwch chi gynnwys hyd at 5% o gyfanswm cost eich prosiect fel arian wrth gefn.

## Incwm

Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau yno.

Mae 5 adran yn y rhan incwm:

- Cais am grant i Gyngor Celfyddydau Cymru

Nodwch faint o arian rydych chi'n gofyn amdano.

Ar gyfer Grantiau Bach, gall y cais fod rhwng £500 a £10,000 neu hyd at uchafswm o 80% o gyfanswm cost gymwys eich prosiect.

Ar gyfer Grantiau Mawr, gall y cais fod rhwng £10,001 a £50,000 neu hyd at uchafswm o 75% o gyfanswm cost gymwys eich prosiect.

- Eich arian eich hun

Yma gallwch chi ddweud wrthym faint o'ch arian eich hun rydych chi'n ei gyfrannu tuag at y prosiect. Rhaid cynnal hyn hyd at y cam diweddu. Ni allwch chi ei leihau.

- Incwm a enillir

Rhestrwch unrhyw incwm rydych chi'n disgwyl ei ennill o'ch prosiect (er enghraifft, gwerthu tocynnau, ffioedd gweithdy, gwerthu gwaith neu gyhoeddiadau). Byddwch yn realistig am lefel yr incwm tebygol. O ran teithio gwaith, rhowch fanylion o'r incwm sydd wedi'i gadarnhau oddi wrth ffioedd gwarantedig y lleoliadau, amcangyfrif o'ch incwm o'r swyddfa docynnau, neu'r ddau.

Dangoswch yn glir yn eich cyllideb am bob eitem sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau yno.

Er enghraifft:
nifer y perfformiadau x nifer yn y gynulleidfa fesul perfformiad x pris y tocyn = £X

Cofiwch, os codir TAW ar eich gwerthiant tocynnau neu'ch pris mynediad, ni ddylech chi ei chynnwys yn eich incwm a enillir.

- Arian arall

Mae sicrhau arian arall ar gyfer eich prosiect yn rhoi gwybod inni fod cefnogaeth ehangach i'ch prosiect. Byddwch yn realistig am lefel yr arian arall tebygol.

Yn yr adran yma, nodwch unrhyw arian arall, gan gynnwys oddi wrth bwy, y swm ac a yw wedi'i gadarnhau neu beidio. Ystyr 'arian wedi'i gadarnhau' yw arian sydd eisoes wedi'i gynnig ichi. Rydym ni'n deall y posibiliad eich bod yn cynnig hefyd i sefydliadau eraill am arian, ond peidiwch â nodi bod arian 'wedi'i gadarnhau' os ydych chi wedi ymgeisio am arian ond heb glywed penderfyniad eto. Os nad oedd penderfyniad wedi'i wneud, nodwch pryd rydych chi'n disgwyl clywed.

Mae Rhyddhad Treth i'r Diwydiannau Creadigol yn rhyddhad treth sy'n cael ei hawlio'n ôl-weithredol. Ni all fod yn rhan o gyllideb prosiect inni.

- Cefnogaeth mewn nwyddau

Gallwch chi gynnwys hyd at 10% o gefnogaeth mewn nwyddau yn eich cyllideb. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn mae cefnogaeth mewn nwyddau'n gallu bod:

  - Defnydd stiwdio a lle ymarfer

- Amser gwirfoddolwyr
- Benthyca offer

Ni all cefnogaeth mewn nwyddau ddod o'ch adnoddau eich hun neu fod yn ostyngiadau gan gyflenwyr.

### Crynodeb

Bydd y tudalen yma'n crynhoi cyfanswm eich gwariant, cyfanswm yr incwm a'r balans ddylai fod yn £0.

Bydd wedyn yn dangos faint o arian rydych chi'n gofyn amdano gan Gyngor Celfyddydau Cymru a lefel y ganran. Rhaid i hyn fod yng nghyfyngiadau ein hariannu.

Os yw'n berthnasol, bydd hefyd yn dangos unrhyw gostau hygyrchedd ychwanegol y gofynnwch chi amdanynt.

Bydd arian y Cyngor yn cynnwys y cais am grant prosiect ac unrhyw gostau hygyrchedd ychwanegol. Dyma'r ffigwr i'w gynnwys yn y ffurflen gais dan 'Swm y cynigir amdano'.

### Costau hygyrchedd

Gallwn helpu i dalu costau cymorth hygyrchedd i chi, neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chynnal eich prosiect mewn ffordd greadigol. Gallai'r rhain gynnwys: costau cyfieithydd, gweithwyr cymorth neu offer neu feddalwedd arbenigol.

Yn eich cyllideb, rhowch ddadansoddiad o'r costau hygyrchedd, er enghraifft: gweithiwr cymorth: £ y dydd, XX diwrnod

Mae'r cyfanswm yma ar wahân i'r swm rydych chi'n gwneud cais amdano i gyflawni'r prosiect. Bydd y cyfanswm yma'n cael ei ychwanegu at gyfanswm y cais am grant.

### Atodiadau eraill

### Ar gyfer Grantiau Bach:

Mae yna atodiadau gorfodol y bydd angen eu hatodi gyda'ch cynnig:

- Eich Dogfen Lywodraethol
- Tystiolaeth Cyfrif Bbanc
- Cyllideb eich Prosiect
- Enghraifft o'ch gwaith/gwybodaeth ategol [5 tudalen ar y mwyaf]

### Enghraifft o'ch gwaith/gwybodaeth ategol

Rhaid ichi atodi enghreifftiau o'ch gwaith (neu waith unrhyw artistiaid neu bobl greadigol rydych chi'n gweithio gyda nhw). Gall hyn fod yn ddolen i'ch gwefan/portffolio ar-lein, lluniau, ffeil gerddorol, fideo neu adolygiad o'ch gwaith. Gallwch chi hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth ategol arall sy'n berthnasol i'ch cynnig (er enghraifft, gwybodaeth am hyfforddiant os yw'n elfen o'ch cynnig). **5 tudalen ar y mwyaf fydd y ddogfen yma.** Os yw'n hirach na hynny, ni fyddwn ni'n darllen y tudalennau ychwanegol. Peidiwch ag uwchlwytho dolenni i ffolderi neu wefannau sy'n cynnwys llawer o ddogfennau - ni fyddwn ni'n darllen y rheiny ychwaith.

Rhaid i'r ddogfen fod yn maint A4, darllenadwy ac maint ffont 11 o leiaf.

**Rydym ni'n asesu eich cais yn seiliedig ar eich ffurflen gais ac y pedwar atodiad gorfodol. Peidiwch â chynnwys unrhyw atodiadau eraill gyda'ch cais, ni fyddwn ni'n eu darllen.**

Ni fyddwn ni'n derbyn ychwaith unrhyw atodiadau sy'n ein cyrraedd ar ôl ichi gyflwyno eich cais.

### Ar gyfer Grantiau Mawr

Mae **atodiadau gorfodol** mae'n rhaid ichi eu hatodi gyda'ch cynnig:

- Eich Dogfen Lywodraethol
- Tystiolaeth Cyfrif Banc
- Cyllideb eich Prosiect
- Enghraifft o'ch Gwaith

### Atodiadau dewisol

**Gyda grantiau mawr yn unig, gallwch uwchlwytho fel *Arall* hyd at dri atodiad** arall i gefnogi eich cais. Yn y rhain gallwch chi roi rhagor o fanylion perthnasol neu esbonio

elfennau cymhleth neu brosiectau amlhaenog. Mae'r atodiadau yma'n ychwanegol at yr atodiadau gorfodol uchod ac ni allan nhw fod yn barhad o'r atebion yno. Gallen nhw gynnwys:

- Cadarnhad o unrhyw symiau mawr o gymorth ariannol
- Cynllun/amserlen y prosiect
- Amserlen y daith
- Rhaglen artistig
- Cynlluniau penodol i ddatblygu cynulleidfaoedd
- Tystiolaeth o gefnogaeth neu'r galw
- Gwerthusiadau blaenorol

**Pum tudalen ar y mwyaf** fydd pob atodiad dewisol. Rhaid iddynt ychwanegu gwerth at eich cynnig. Os ydynt yn hirach na hyn, ni fyddwn ni'n darllen y tudalennau ychwanegol. Peidiwch ag uwchlwytho dolenni i ffolderi neu wefannau sy'n cynnwys llawer o ddogfennau - ni fyddwn ni'n darllen y rheiny ychwaith.

Rhaid i'r dogfennau fod yn maint A4, yn ddarllenadwy ac maint ffont 11 o leiaf.

Er enghraifft, *gallai* eich rhestr o atodiadau edrych rhywbeth fel hyn:

- Eich dogfen lywodraethol [gorfodol]
- Tystiolaeth cyfrif banc [gorfodol]
- Cyllideb eich prosiect [gorfodol]
- Enghraifft o'ch gwaith [gorfodol – 5 tudalen ar y mwyaf]
- Rhaglen artistig [dewisol – 5 tudalen ar y mwyaf]
- Cynlluniau penodol i ddatblygu cynulleidfaoedd [dewisol – 5 tudalen ar y mwyaf]
- Tystiolaeth o gefnogaeth neu'r galw [dewisol – 5 tudalen ar y mwyaf]

**Rydym ni'n asesu eich cais yn seiliedig ar eich ffurflen gais, y pedwar atodiad gorfodol ac hyd at dri atodiad dewisol (os ydych chi wedi'u cynnwys). Peidiwch â chynnwys unrhyw atodiadau eraill gyda'ch cais, ni fyddwn ni'n eu darllen.**

Ni fyddwn ni'n derbyn ychwaith unrhyw atodiadau sy'n ein cyrraedd ar ôl ichi gyflwyno eich cais.

## 12. Ar ôl cyflwyno eich cais

### Beth sy'n digwydd i'ch cais?

### Gwirio eich cais

Byddwn ni'n cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais drwy anfon e-bost. Byddwn ni'n gwirio eich cais ac yn ei roi i swyddog. Dim ond ceisiadau sy'n gyflawn y byddwn ni'n eu hasesu. Mae hyn yn golygu darparu'r holl wybodaeth rydym ni wedi gofyn amdani'n ddigon manwl inni allu asesu eich cais yn iawn.

Os nad ydym ni'n gallu asesu eich cais, dywedwn ni pam.

### Asesu a gwneud penderfyniadau

Bydd swyddogion asesu yn ystyried eich cais yn ofalus a'r wybodaeth ategol rydych chi wedi'i chynnwys. Nid ydym ni'n gofyn am wybodaeth ychwanegol ar ôl i'r asesiad ddechrau, felly mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn yn y ffordd orau y gallwch chi a bod eich gwybodaeth ategol yn ddigon manwl ac yn gywir.

Ystyrir eich cais wrth ei gymharu ag eraill mewn cyfarfod penderfynu a gadeirir gan aelod uwch o staff.

## Sut rydym ni'n gwneud penderfyniad

Gwyddom fod galw mawr am ein harian a bod ceisiadau da y mae'n rhaid inni eu gwrthod am nad oes digon o arian ar gael. Byddwn ni'n defnyddio ein blaenoriaethau strategol, ein gwybodaeth am eich sefydliad a'ch gweithgarwch blaenorol, a'n barn broffesiynol i wneud y penderfyniadau anodd yma. Byddwn bob amser yn ceisio cefnogi'r ceisiadau sydd wedi dangos orau eu bod o safon uchel.

## Os yw eich cais yn llwyddiannus

Byddwch chi'n derbyn cynnig grant ffurfiol drwy e-bost yn cadarnhau lefel y grant ac unrhyw amodau ychwanegol (er enghraifft, cael cadarnhad ysgrifenedig o arian partneriaeth). Byddwn ni hefyd yn anfon ein hamodau arferol o grant atoch, ein gofynion o ran cydnabod ein harian a brandio a gwybodaeth am eich taliadau.

## Taliad

Fel arfer rydym ni'n talu grantiau hyd at £5,000 mewn un taliad ar ôl ichi fodloni unrhyw amodau ychwanegol. Rhaid inni hefyd dderbyn a phrosesu eich ffurflen derbyn grant wedi'i llofnodi'n electronig (neu wedi'i llofnodi a'i phostio os ydym ni wedi cytuno i hyn ddigwydd).

Fel arfer rydym ni'n talu grantiau mwy na £5,000 mewn sawl taliad. Byddwn ni'n gwneud taliadau ar ôl ichi fodloni unrhyw amodau ychwanegol ar y taliad. Bydd yr amodau a manylion y taliadau yn eich llythyr cynnig. Rhaid inni hefyd dderbyn a phrosesu eich ffurflen derbyn grant wedi'i llofnodi'n electronig (neu wedi'i llofnodi a'i phostio os ydym ni wedi cytuno i hyn ddigwydd).

## Yn ystod ac ar ôl eich prosiect

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod sut mae'ch prosiect yn mynd yn ei flaen. Os oes newidiadau sylweddol i'ch prosiect neu ei ddyddiad gorffen yn ystod y cyflwyno neu i'r prif gyswllt, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu am drafodaeth. Efallai y byddwn ni'n gofyn ichi am adroddiad cynnydd sy'n dweud wrthym am arian a gweithgarwch eich prosiect hyd at adeg benodol. Efallai y byddwn ni'n trefnu i'n swyddogion neu'n Cydweithwyr fynychu gweithgarwch a digwyddiadau fel y gallwn fod yn hyderus am safon y gwaith rydych chi'n ei gyflawni.

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn ni'n gofyn ichi am adroddiad diweddu. Bydd angen ichi ddweud wrthym beth yw eich ffigyrau incwm a gwariant gwirioneddol, gan gynnwys manylion am eich holl arian partneriaeth, manylion gweithgarwch a

chanlyniadau allweddol yn ogystal â gwerthusiad o effaith eich prosiect, gan ddangos sut y cyflawnodd ei amcanion. Gallwch chi lenwi'r adroddiad ar-lein.

Os nad ydych chi'n cynnal y prosiect fel y'i disgrifiwyd, mae'n bosibl bydd yn rhaid inni adhawlio ychydig neu'r cyfan o'r grant.

### Os nad yw eich cais yn llwyddiannus

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn ni'n anfon e-bost atoch sy'n egluro'r prif resymau dros ein penderfyniad. Byddwch chi'n gallu trafod hyn gydag aelod o'n staff os dymunwch.

## Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol

Os nad ydych chi'n gallu derbyn arian Loteri Genedlaethol am unrhyw reswm, dylech chi uwchlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam mae hyn yn wir. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian o ffynonellau eraill.

# Cysylltwch â ni

Rydym ni wedi ceisio gwneud y broses ymgeisio a'r canllawiau mor syml a chlir â phosibl. Ond os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am y broses neu am gyngor pellach, cysylltwch â ni.

Os ydych chi angen cyngor pellach ynglŷn â'ch prosiect wrth lenwi'r ffurflen, gallwch chi gysylltu â'ch Swyddog Datblygu.

Os oes gennych ymholiad technegol, cysylltwch â'n Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bostio grantiau@celf.cymru neu ffonio 03301 242733 gan ddewis opsiwn 1, yna opsiwn 1.

03301 242733

9am-5pm Llun-Iau
9am-4.30pm Gwener

www.celf.cymru/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

@Celf_Cymru

celfcymruarts